**Cyd-gyfarfod y Cynghorau**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 2.00p.m. ddydd Llun 11 Gorffennaf 2022 yn Adeilad IQ, Campws Abertawe, SA1

Yn bresennol:
Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Justin Albert
Pam Berry
Andrew Curl
Tania Davies
Margaret Evans
Taya George Gibbons
Eifion Griffiths
Yr Athro Medwin Hughes
Vanessa Liverpool
Arwel Ellis Owen
Dr Stuart Robb
Geraint Roberts
Nigel Roberts
Emlyn Schiavone
Maria Stedman
Dr Kerry Tudor

Hefyd yn bresennol:
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Andrew Cornish, Pennaeth Coleg Sir Gâr/Ceredigion
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol (drwy Teams)

Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

Iestyn Davies, Pro Is-Ganghellor (sylwedydd)

Estynnodd yr aelodau eu cydymdeimlad â Justin Albert ac Andrew Curl ar eu profedigaethau diweddar gan sefyll fel arwydd o barch.

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 22.25 Ymddiheuriadau am absenoldeb | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Tony Ball, Siwan Davies, Tania Davies, Rowland Jones, Matthew Peake, Victoria Provis, Dr Conny Matera-Rogers, Dr Liz Siberry, Jane O'Rourke, Deris Williams.<br><br>Nododd y Clerc fod Rowland Jones eisiau ei gwneud yn glir y byddai wedi gallu mynychu'r cyfarfod o bell. | |
| 22.26 Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau'r Datganiadau o Fuddiannau fel y'u nodwyd yn adroddiad y Clerc a nodwyd y datganiadau ychwanegol (JCO148). | |
| 22.27 Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad y Cadeirydd (JCO149).<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Taya Gibbons fel yr aelod myfyrwyr newydd o'r Cyngor. Llongyfarchodd Vanessa Liverpool ar gael ei hail-ethol yn Llywydd y Grŵp.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddeoliad arfaethedig Tony Ball, Pam Berry, Andrew Curl, Margaret Evans ac Eifion Griffiths o'r ddau Gyngor. Estynnodd ddiolch diffuant y Cynghorau iddynt am eu hymroddiad, eu hymrwymiad a'u cyfraniad sylweddol i'r Cynghorau a'r Prifysgolion. Diolchodd yn arbennig i Pam Berry a Margaret Evans am eu cymorth fel Is-Gadeiryddion y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Cymru, yn y drefn honno. Diolchodd hefyd i Tania Davies, a oedd wedi dod i ddiwedd ei chyfnod yn y swydd fel aelod Staff Academaidd, am ei hymrwymiad a'i gwasanaeth.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddeoliad yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd) a diolchodd iddi am ei hymroddiad a'i chyfraniad dros 35 mlynedd.<br><br>Diweddarodd y Cadeirydd y Cynghorau ar drafodaethau yng nghyfarfod Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (ChUW) a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2022 ynghylch y canlynol: y mesurau roedd sefydliadau'n eu hystyried i leihau'r risgiau yn gysylltiedig ag unrhyw bandemig yn y dyfodol, y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ac adroddiadau Camm ar Degwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid. Yn ogystal derbyniodd ChUW ganlyniadau REF yn ymwneud â'r sector AU yng Nghymru a oedd yn dangos gwelliant bach o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.<br><br>Cadarnhaodd y Clerc fod yr adroddiad ar Ymgysylltu â Rhanddeiliaid i'w ystyried gan y Cynghorau yn y diwrnod cynllunio ym mis Medi. | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 22.28<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 22.29<br>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 23 Mai 2022 (JCO151).<br><br>Canmolodd Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw y ffordd y cyflwynir data bellach. | |
| 22.30 Materion yn ymwneud â Rheoli Risg | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng Nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 22.31<br>Penodi Archwilwyr Allanol a Mewnol | YSTYRIODD y Cynghorau argymhellion ar gyfer penodi Archwilwyr Mewnol ac Allanol ar gyfer Grŵp PCYDDS a Phrifysgol Cymru (JCO153).<br><br>Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol fod yr argymhellion wedi'u gwneud yn dilyn proses dendro a oruchwyliwyd gan swyddogaeth Caffael y Grŵp. Roedd yr argymhellion wedi'u cymeradwyo gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r penodiadau'n cwmpasu'r Brifysgol a'r Colegau.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor yr argymhellion canlynol:<br><br>(a) y dylid penodi KPMG yn Archwilwyr Allanol y Grŵp am y cyfnod 3 blynedd 2022/23, 2023/24, 2024/25 gyda darpariaeth ar gyfer 4edd flwyddyn ddewisol yn rhan o'r penodiad;<br>(b) y dylid penodi Mazars yn Archwilwyr Mewnol y Grŵp am y cyfnod 3 blynedd 2022/23, 2023/24, 2024/25 gyda darpariaeth ar gyfer 4edd flwyddyn ddewisol yn rhan o'r penodiad.<br><br>Nododd yr aelodau ei bod yn bwysig bod yr archwilwyr mewnol yn gallu gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo angen. | |
| 22.32<br>Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | YSTYRIODD y Cynghorau adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 20 Mai 2022 (JCO154).<br><br><u>Cod Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC)</u><br>Roedd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu wedi ystyried adolygiad bob dwy flynedd gan y Clerc ynghylch arfer cyfredol yn erbyn Cod CUC. Roedd ei hadroddiad wedi cadarnhau bod yr holl elfennau | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | wedi'u mabwysiadu'n llawn ond cododd rai materion i'w hystyried gan y Pwyllgor a thynnodd sylw at rai meysydd lle'r oedd cynnydd pellach yn ddibynnol ar gwblhau gwaith ar draws y sector yn dilyn adolygiad Camm.<br><br>O ran Elfen 5.8 – ystyried manteision penodi Uwch Lywodraethwr Annibynnol – nodwyd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu fod rhai prifysgolion yng Nghymru bellach wedi penodi Llywodraethwr o'r fath. CYTUNODD y Cynghorau y dylai'r Clerc ddrafftio disgrifiad swydd posibl ar gyfer Uwch Lywodraethwr Annibynnol i'w ystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ar yr adeg briodol.<br><br><u>Cynllun gweithredu Camm</u><br>Roedd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu wedi ystyried adroddiad ar gynnydd o ran cynllun gweithredu Camm. O ran Cam Gweithredu 9 – Amrywiaeth a Chynwysoldeb Cyrff Llywodraethu – nododd yr aelodau fod sesiwn ar y cyd â Choleg Sir Gâr wedi'i threfnu i hwyluso datblygu cynlluniau amrywiaeth y Cynghorau a'r Bwrdd. O ran y ddwy brifysgol byddai'r gwaith yn cael ei arwain gan weithgor o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, gyda'r deilliannau'n cael eu cyflwyno yng nghyfarfodydd y Cynghorau ym mis Medi.<br><br><u>Cynllunio olyniaeth ar gyfer llywodraethwyr annibynnol</u><br>Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod.<br><br><u>Cod Ymddygiad Llywodraethwyr Coleg Sir Gâr</u><br>Gwnaeth y Cynghorau GYDSYNIO i God Ymddygiad Llywodraethwyr CSG. | |
| 22.33<br>Cylch gorchwyl a threfniadau pwyllgorau sefydlog | YSTYRIODD y Cynghorau argymhellion y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu o ran trefniadau ac aelodaeth pwyllgorau sefydlog yn 2022/23 (JCO156) a chymeradwywyd y canlynol:<br><br>(a) sefydlu Pwyllgor Ystadau fel pwyllgor sefydlog o'r ddau Gyngor a chylch gorchwyl ar ei gyfer, ac addasiadau dilynol i gylch gorchwyl y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad;<br>(b) mân newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Academaidd.<br><br>Nododd y Cynghorau fod y materion canlynol a argymhellwyd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu wedi'u cymeradwyo drwy weithredu gan Gadeirydd y Cyngor:<br><br>(a) Aelodaeth a chadeiryddiaeth arfaethedig pwyllgorau sefydlog ar gyfer 2022/23;<br>(b) Calendr drafft o gyfarfodydd ar gyfer 2022/23 | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Nododd yr aelodau y trafodwyd amser dechrau cyfarfodydd a bod aelodau wedi cytuno i gynnig dechrau am 16.00 o ran y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio a Risg fel cynllun peilot, ynghyd â rhai newidiadau i amserau dechrau'r Cynghorau. | |
| 22.34 Cofnodion y cyfarfod diwethaf | CADARNHAODD y Cynghorau Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2022 (JCO157). | |
| 22.35 Adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau yr adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd (JCO158). | |
| 22.36 Adroddiad Iechyd a Diogelwch | DERBYNIODD y Cynghorau yr adroddiad Iechyd a Diogelwch (JCO159).<br><br>Nododd y Clerc y byddai materion Iechyd a Diogelwch yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Ystadau newydd yn y dyfodol. | |
| 22.37 Datganiadau o fuddiannau | Nid adroddwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 29 Medi 2022. | |

Terfynwyd y cyfarfod am 3.15 p.m.